Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd ar Nos Lun 27ain o Fehefin, 2022 am 7.30 y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn
Minutes of Trawsgoed Community Council held on Monday 27th of June, 2022 at 7.30 p.m. at Llanfihangel-y-Creuddy Primary School

Presennol/Present: Cyng./Cllr. A. Evans (Cadeirydd/Chairman)
Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. P. Davies, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. E. Lewis, Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan.
Cynghorydd Sir/County Councillor M. Davies

37. **Datgelu Buddiannau Personol**
Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau.

Disclosure of Personal Interest
Members were reminded to declare an interest when discussing items.

38. **Asesiad Risg ac Asedau**
Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau.

Risk and Asset Assessment
There were no matters arising regarding Assets.

39. **Llenwi Seddi Gwag ar y Cyngor Bro drwy Gyfethol o'r Gymuned**

Filling Vacant Seats on the Community Council by Co-option from the Community

40. Rhoddwyd hysbysebion perthnasol o ran y broses o gyfethol gan ddatgan fod tair sedd wag ar Gyngor Bro Trawsgoed, dwy yn ward Llanafan a'r llall yn ward Llanfihangel-y-Creuddyn. Gan mai llefydd cyfetholedig fyddai rhain nid yw'r wardiau'n berthnasol.

Relevant advertisements were placed in respect of the co-option process stating that there were three vacant seats on Trawsgoed Community Council, two in the Llanafan ward and the other in the Llanfihangel-y-Creuddyn ward. As these would be co-opted places the wards do not apply.

Gan y derbyniwyd mwy o enwau nag o lefydd gwag roedd rhaid cynnal cyfres o bleidleisiau gan aelodau'r Cyngor Bro i enwebu aelodau i'w cyfethol.

As more names were received than vacancies a series of votes were held by members of the Community Council to elect co-opted members

Etholwyd Milwyn Davies, Iestyn Leyshon ac Aled Richards i fod yn Aelodau Cyfetholedig ar y Cyngor Bro.

Milwyn Davies, Iestyn Leyshon and Aled Richards were elected to be Co-opted Members of the Community Council.

41. **Cofnodion Cyfarfod Diwethaf**
Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 16eg Mai, 2022. Cynigiwyd cywirdeb gan Cyng. P. Bonner ac eiliwyd gan Cyng. E. Lewis.

Minutes of the Last Meeting
The minutes of the last meeting, 16th May, 2022, were confirmed and accepted. Proposed by Cllr. P. Bonner and seconded by Cllr. E. Lewis.

42. **Materion yn codi o'r Cofnodion**

Matters arising from the Minutes:

43. Y Clerc i ddilyn lan gyda'r materion isod sy'n parhau angen sylw gan Gyngor Sir Ceredigion:

The Clerk to follow up on the outstanding matters reported to Ceredigion County Council:

44. Y gwaith o baentio llinellau gwyn ar y ffyrdd yn Llanafan wedi dechrau ond angen cwblhau.

The painting of White lines on the roads has been started at Llanafan but requires completion.

45.	Sefyllfa Dwr yn cronni ar ffordd ger y Gors yn parhau. Y Clerc i ofyn i Gyngor Sir Ceredigion am ddiweddariad o'r sefyllfa.	Flooding on the road near New Cross is continuing. Clerk to request an update from Ceredigion County Council.
46.	Gwteri'n parhau angen glanhau yn yr ardal, bydd angen cadw llygad ar sefyllfaoedd pan geir tywydd garw eto.	Overflowing gutters continue to be a problem, will need to monitor the situation when it rains again.
47.	Ffordd heibio Capel Carmel, Cnwch Coch. Derbyniwyd ymateb gan y Cyngor Sir byddid yn edrych mewn i'r sefyllfa ac erbyn nawr mae'r gwteri wedi glanhau ar y ffordd dan sylw.	Road adjoining Carmel Chapel, Cnwch Coch. Response from the County Council that the situation of the road is being monitored and by now the road drains have been cleaned.
48.	Yr angen hefyd am y glanhawr ffordd ar y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan tuag at y B4340.	Also the sweeper is needed on the road from the Old School, Llanafan towards the B4340.
49	Yr angen yn parhau am arwynebedd newydd ar: y ffordd heibio Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn er fod y tyllau wedi llenwi mae'r ffordd dal yn anwastad; y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan a heibio Maes Chwarae Maes y Felin; y ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant yn parhau.	The need continues for resurfacing: the road adjoining the School at Llanfihangel-y-Creuddyn, although potholes have been filled the road is still uneven; road leading from the old School Llanafan towards Maes y Felin Playing Fields; road from Llanfihangel-y-Creuddyn towards Trisant.
50.	Dilyn lan gyda'r Cyngor Sir am dorri nol dwy shetin preifat sy'n amharu ar weledd gyrrwyr rhwng Brynafan a Llanafan.	Contact the County Council of the two private hedges that need cutting back between Brynafan and Llanafan.
51	Sefyllfa'r ffordd yn rhoi ger Royal Oak, Llanafan yn parhau. Cyfeiriodd y Clerc at ohebiaeth y derbyniodd wrth Aelod o'r Cyhoedd am y sefyllfa. Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir gan ofyn am gweithredu brys yn y lleoliad o ran iechyd a diogelwch y cyhoedd. Copi i'w ddanfon at Elin Jones, A.S. a Ben Lake, A.S.	Road subsiding near Royal Oak, Llanafan continues needing attention. The Clerk reported on recent communication received from a Member of the Public. Resolved that the Clerk contact Ceredigion County Council requesting urgent action at the location. Copies to be sent to Elin Jones A.S. and Ben Lake, M.P.
52.	Llifogydd ar y ffordd ger Dolgelynen yn nhywydd garw yn parhau,	Flooding on the road near Dolgelynen during severe weather continues.
53.	Problem tyfiant yn Nantyrhaidd yn parhau, gofyn i'r Cyngor Sir ail-ymweld a'r lleoliad.	Overgrowth at Nantyrhaidd Stream continues to be a problem, request the County Council to re-visit.
54.	Diffibriliwr Llanfan: Trigolion o fewn y Pentref bellach wedi cymryd at yr Offer. Diffibriliwr i'w adleoli i'r Safle Bws ger Tafarn y Ffarmers, Llanfihangel-y-Creuddyn. Derbyniwyd gadarnhad	Defibrillator: Residents at Llanafan have taken responsibility for the Equipment. Defibrillator to be re-located to the Bus Stop adjoining The Ffarmers Pub at Llanfihangel-y-Creuddyn. Written

55. ysgrifenedig gan berchennog Y Ffarmers nad oedd gwrthwynebiad ganddynt i'r cais.

confirmation was received from the Owner of The Ffarmers that they had no objection.

56. **Materion Cyllidol**

Finance

57. Taliad i Gynghorwyr Cymuned yn unol ag Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru am 2022/23.

Payment to Community Councillors in accordance with the Independent Panel for Wales Annual Report for 2022/23. The Clerk reported that the current Community Councillors had completed a form choosing to refuse the allowance.

58. Adroddodd y Clerc bod y Cynghorwyr Cymuned presennol wedi cwblhau ffurflen yn dewis i wrthod derbyn y lwfans.

59. Byddid yn ymateb i gais Panel Annibynnol Cymru am wybodaeth am daliadau 2021/22 yn nodi na dderbyniodd yr un Cynghorydd Bro Trawsgoed daliad yn ystod y flwyddyn 2021/22.

The Independent Panel for Wales' request for information on the 2021/22 payments would be responded to by stating that no Trawsgoed Community Councillor received payments during the 2021/22 year.

60. Cyflwynodd y Clerc fantolen ariannol sy'n nodi fod £3,919.18 o falans yn y banc ar 30/5/2022 a oedd yn dangos y derbyniwyd llog banc o £0.23 ar 03/06/2022 a taliadau o gostau banc o £6.60 Mawrth 2022, £6.20 Ebrill 2022 a £5.80 May 2022.

The Clerk presented a Financial balance sheet which showed an available balance of £3,919.18 as of 31st May, 2022 which included details of income of £0.23 interest received on 03/06/2022 and bank charges of £6.60 for March 2022, £6.20 April 2022 and £5.80 for May 2022.

61. Anfoneb o £100 wrth yr Archwilydd Mewnol am ymgymryd â'r gwaith ar gyfrifon y Cyngor Bro am 2021/22. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. E. Lewis ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan.

Invoice of £100.00 from the Internal Auditor for work undertaken on the 2021/22 Accounts. Payment proposed by Cllr. E. Lewis and seconded by Cllr. C. Lloyd-Morgan.

62. Rhoddion: Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2021-22:
Cytunwyd yn dilyn cais gan Glwb Ffermwyr Ifanc Llanilar I gyfrannu £100.00. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. A. Davies ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards.

Donations: Section 137 (4) (a) of the Local Government Act 1972 Section 137 Limit Expenditure for 2021-22:
Following a request from Llanilar YFC it was agreed to donate £100.00. Payment proposed by Cyng. A. Davies and seconded by Cyng. Sh. Edwards.

63. Cais gan drigolion Llanafan / Pwyllgor Apel Lleol Eisteddfod Genedlaethol am £300.00 nawdd ariannol i addurno Pentrefi Llanafan a Thrawsgoed ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Tregaron ym mis Awst.

Cytunwyd yn unfrydol i beidio a chyfrannu tuag at y gost gan annog unigolion/ sefydliadau o fewn pentrefi i addurno eu cartrefnu/busnesau eu hun.

A request was considered from Llanafan residents / Local Appeal of the National Eisteddfod for £300.00 to decorate the Villages of Llanafan and Trawsgoed for the Tregaron National Eisteddfod in August.

It was unanimously agreed not to contribute towards the cost and to encourage individuals/organisations within villages to decorate their own homes/businesses.

64. **Cyfrifon 2020/2021**

65. Ar yr 8fed o Fehefin 2022 derbyniwyd ganlyniad archwiliad allanol ar y Cyfrifon uchod gan Archwilio Cymru ble nodwyd mai dyfarniad *Cymwysedig* a roddir ar gyfrifon 2020/21. Nodir yn yr ohebiaeth er fod ffigurau'r cyfrifon mewn trefn y rhoddwyd y dyfarniad hynny oherwydd nad oedd y Datganiad Llywodraethu yn gyflawn gan na chyflwynwyd cytundeb cyflogaeth a swydd ddisgrifiad llawn i'r Clerc pan ei hapwyntiwyd.

66. Yn sgil hynny trafodwyd drafft o gytundeb/ swydd ddisgrifiad y Clerc a ddosbarthwyd ymlaen llaw a cytunwyd ar y cynnwys wedi mân newidiadau.

2020/2021 Accounts

On the 8th June 2022 the findings of the external audit of the above Accounts were received from Audit Wales where it was noted that a *Qualified* decision was given on the 2020/21 accounts. It is noted in the correspondence that although the accounts figures were in order that that award was given because the Governance Statement was not complete as the Clerk hadn't received a contract of employment and job description at the time of appointment.

A draft of a Clerk's contract of employment/ job description was discussed which had been circulated in advance and subsequently approved after minor amendments.

67. **Cyfrifon 2021/2022**

68. Cynhaliodd yr Archwilydd Mewnol archwiliad o'r cyfrifon, ble gwelwyd eu bod mewn trefn. Penderfynwyd derbyn y cyfrifon a hefyd ymateb i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol o fewn y Datganiad Blynyddol y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 yn ogystal â chynnal asesiad risg ariannol ac asedau.
Roedd £3,618.71 gyllid wrth gefn yn y gronfa ar 31ain Mawrth 2022

2021/2022 Accounts

The Internal Auditor undertook an audit of the accounts, which were found to be all in order. Members duly resolved to accept the accounts and respond to the Annual Governance Statement of the Annual Return Year Ended 31 March 2022 as well as conducting a financial and asset risk assessment.
There were £3,618.71 reserves as of 31st March 2022.

69. **Asedau**:
Aed drwy'r rhestr o asedau sefydlog a chadarnhawyd y canlynol i'w cynnwys ar y Datganiad Blynyddol, cyfanswm o £17.723.00
5 Sedd
2 Polyn Fflag:
7 Hysbysfyrddau:
4 Cysgodfa Bws:
2 Blwch Ffôn Coch
1 Llyfr Cyfeirnod
Tir: Darn bach o dir ar gyfer gosod golau stryd.

Assets

The asset register was discussed and agreed upon and the following to be included on the Annual Return, total of £17,723.00
5 benches
2 Flag poles:
7 Notice Boards:
4 Bus Shelters:
2 Red Phone Boxes
1 Reference Book
Land: Donated Land for citing of lighting

70. **Adroddiad Blynyddol y Cyngor Bro**

71. Yn unol â Ddeddf Llywodraeth Leol a Democratiaeth 2021 (Cymru) mae'n ofynnol i Gynghorau Bro gyhoeddi adroddiad blynyddol am weithgareddau'r Cyngor Bro am y flwyddyn ariannol flaenorol.

Annual Report of the Community Council

The Local Government and Democracy Act 2021 (Wales) requires Community Councils to publish an annual report on the activities of the Community Council for the previous financial year.
The Clerk submitted the 2021/22 Annual Report which has been previously

Cyflwynodd y Clerc Adroddiad Blynyddol 2021/22 a ddosbarthwyd ymlaen llaw a derbyniwyd y cynnwys a fydd yn arddangos ar safle we y Cyngor Bro.

circulated and Members resolved to approve the report which will be displayed on the Community Council website.

72. **Gohebiaeth**

Correspondence

73. Ben Lake A.S. cydnabyddiaeth o waith Cynghorwyr Bro.

Ben Lake A.M. acknowledgement of the work undertaken by Community Councillors.

74. Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at *Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.*

Welsh Government bringing attention to *The Finance & Governance Toolkit for Community and Town Councils.*

75. **Unrhyw Fater Arall**

Any Other Business

76. Gofyn i Gyngor Sir Ceredigion i sicrhau i dyfiant ochr ffyrdd o fewn yr Ardal gael eu dorri ar frys, yn enwedig cyn i ymwelwyr Eisteddfod Tregaron ymweld â'r ardal.

Ask Ceredigion County Council to ensure that roadside growth within the Area is urgently cut, especially prior to the arrival of visitors to the National Eisteddfod at Tregaron.

77. Adroddwyd fod yna beth pryder yn lleol am natur adeiladau a godir yn y Gors ac a ydynt o fewn maint y cais cynllunio y cytunwyd arnynt.

It was reported that there is some concern locally about the nature of buildings built in New Cross and whether they are within the agreed size of the planning application.

78. Trafodwyd yr angen am ail-baentio llinellau gwyn ar Bont Trawsgoed a bod lleoliad y llinellau gwyn presennol ar y groesffordd yn y man anghywir.
Trafodwyd y dylid ad-leolir llinell gwyn i'r hyn oeddent yn wreiddiol flynyddoedd yn ôl fel bod rhediad y ffordd B4575 yn mynd dros Bont Trawsgoed ac ymlaen am Lanilar.

The need for white lines on Trawsgoed Bridge to be repainted was discussed and that the location of existing white lines at the crossroads were in the incorrect locations. Discussion was that the white lines should be repositioned to where they were originally years ago so that the B4575 road runs over Trawsgoed Bridge and on towards Llanilar.

79. Yr angen hefyd am ail-baentio'r llinellau gwyn ar y gyffordd am Swyddffynnon ger Dolfor.

The need also for the white lines at the junction at Swyddffynnon near Dolfor to be repainted.

80. Goleuadau Fflachio tu allan i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn. Problem hanesyddol o ble nad yw'r golau'n fflachio ar adegau dechrau a gorffen amser ysgol.

Flashing Lights outside Llanfihangel-y-Creuddyn School. Historical problem of the lights not flashing at the times of starting and finishing school time.

81. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Nos Lun 25ain o Orffennaf, 2022 am 7.30y.h.yn Neuadd Lisburne.

DATE OF NEXT MEETING
Monday 25th July, 2022 7.30p.m. at Neuadd Lisburne.